Cyngor Bro Llanfihangel Glyn Myfyr

Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 12fed o Fawrth 2024 am 7.30

Yn bresenol oedd Eryl Evans, (cadeirydd), Gethin Jones, Arwyn Ellis, mynychodd Helen Jones ar ol ir cyfarfod gyda Eluned Lewis (Bute Energy) ddod i ben oherwydd roedd yn datgan ei diddorbed ir hyn a oedd yn cael ei drafod. Cafwyd ymddiheuriadau gan Llyr Jones, Medwyn Roberts a Cyn Gwennol Ellis.

Cafwyd cyfarfod gyda tri aelod sydd yn gweithio ir cwmni Bute Energy ar y fferm wynt Moel Chwa, dywedodd os bydd y 12 twrbein gwynt yn cael ei gosod y buasai £600,000 o arian ar gael i gymunedau lleol, INDEX LINK am 40 mlynnedd, Trafodwyd gyda'r cynghorwyr i ofyn os oeddynt yn ymwybodol o brosectiau yr hoffem ei cael ir gymuned, dywedodd y cadeirydd bod Astudiaeth Dichnoldeb yn cael ei greu ar hyn o bryd yn y gymuned ac efallai y buasai hwnnw yn ddefnyddiol iawn i weithio gyda y syniadau a ddaw i law. Dywedodd bod yr arian yn mynd iw gael ei ddosbarthu mwy lleol nac y ddwy fferm wynt presennol. Dywedodd bydd ymgynghoriad iw gael yn ystod yr haf a gawn weld beth ddaw wedi hynny.

Cofnodion blaenorol arwyddwyd fel rhai cywir.

Gohebiaeth

1. Ty Gobaith llythyr diolch am ein cyfraniad o £265.
2. Cyngor Sir Conwy - Toiledau Cymunedol - trafodwyd ond nid yn berthnasol i Lanfihangel G M.
3. Pete Regan - cafwyd e bost yn gofyn os oes modd ir cymuned gyfarfod ar cynghorwyr mewn cyfarfod agored rhyw ben. Clerc i gysylltu i ddweud bydd modd gwneud hyn ar ol cael yr Astudiaeth Dichnoldeb ddod yn ei ol a gawn drafod y canlyniad.
4. Archwilio Awdit – anfoneb 21/22 = £620.00 (archwiliad llawn) 22/23 = £200.00.
5. Archwilio Awdit mewnol - gan bod Teleri Jones yn dod ai gwasanaeth archwilio i ben pasiwyd gofyn i Gwmni Emyr Mortimer mae'r cyfrifydd yma yn cynnal syrgeri yn Ngherrig y Drudion ar fore ddydd Iau. Hefyd pasiwyd i ofyn iddo wneud cyflog y clerc hefyd o flwyddyn nesa ymalen.
6. Costau a Cyflog y clerc am y flwyddyn £1,904.76 pasiwyd iw dalu.
7. Ymweliad a Marc Roberts – daeth Marc atom i gael gweld y pentref yn ystod y dydd er mwyn casglu gwybodaeth a gall fod o fydd i lunio yr Astudiaeth Dichnoldeb ir gymuned. Cafwyd copi draft or astudiaeth inni drafod yn ein cyfarfod Cyngor, cytunodd pawb ein bod yn hapus ac i Marc gario mlaen gyda'r cam nesaf.
   Cafwyd anfoneb am ran daliad am ei waith iw dalu ddiwedd Mawrth £1,242.19. (chwarter gost).
8. Ad daliad TAW £626.40.
9. Y fynwent - mae'r giatiau yn ei holau wedi ei trin ac yn edrych yn dda, diolch i Eryl am fynd a nhw iw trin. Cafwyd £750 o gronfa fferm wynt Bodtegir i dalu am y gwaith.
10. Ceisiadau fferm wynt Brenig wedi bod yn llwyddiannus gyda'r ddau gais a roddwyd i mewn yn mis Rhagfyr sef £717.60 i gael hysbysfwrdd newydd, a £4500.00 i ail wynebu cae peldroed.
11. Cae peldroed - mae 'r tamaid or cae gyda llawer o ddwr clerc i gysylltu a Bwrdd Dwr i holi os oes posib ail edrych ar y beipen ddwr.
    UNRHYW FATER ARALL
12. Sgip at mis Mai.
13. Unllais Cymru - tal aelodaeth £38.00 pasiwyd iw dalu.

14. Cygor Sir Conwy   Clerc i gysylltu i adrodd am dyllau yn y ffordd ar ol Bodtegir i gyfeiriad Nant y Geuryd. Ac hefyd mae angen ffosio ochr y ffordd i fynnu o Lanfihangel am Bodtegir gan bod dwr yn dod ir ffordd.
15. Cyngor Sir Ddinbych  - dywedodd Eryl bod y 'culvert' wedi ei wneud ger Cefn Ceirch gan Gyngor Sir Ddinbych.